# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Teeth for Life (Magwyr) / Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 9 Gorffennaf 2018

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.hiw.org.uk**


ISBN Digidol 978-1-78964-157-8

(h) Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym................................................................ 7

   Ansawdd profiad y claf ..................................................................8

   Darparu gofal diogel ac effeithiol .....................................................13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..............................................20

4. Beth nesaf?.................................................................................... 23

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol........................................ 25

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ...........26

   Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol...........................................27

   Atodiad C – Cynllun gwella.............................................................28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Teeth for Life, Hawkesford House, Sgwâr Magwyr, Magwyr, NP26 3EG, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 9 Gorffennaf 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC (yn arwain yr arolygiad) ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Reoliadau na'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'u gofal a'u triniaeth.
- Roedd cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac wedi'u dogfennu'n dda ar y cyfan.
- Dangosodd y staff broses drylwyr ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael yn dangos bod offer pelydr-X a dihalogi yn cael ei ddefnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod cyfleoedd hyfforddiant da ar gael iddynt.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddariadau i rai polisïau a gweithdrefnau
- Amgylchedd ffisegol yr ystafell ddihalogi
- Trefniadau ar gyfer gwasanaethu rhywfaint o'r offer
- Rhaglen gadarn o archwiliadau
- Cofnodion hyfforddiant staff.

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn - cynnal a chadw offer, rhai polisïau a gweithdrefnau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r person cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os na fydd yn gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Teeth for Life yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Magwyr yn Sir Fynwy. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, dwy nyrs ddeintyddol a derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gan y practis chwaer-bractis yng Nghil-y-coed, ac mae rhai o'r staff yn gweithio'n rheolaidd yn y ddau bractis. Gall cleifion hefyd, er hwylustod, ddefnyddio'r ddau bractis ar gyfer apwyntiadau.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i’n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm cyfan y practis. Roedd sylwadau'r cleifion am y practis yn gadarnhaol. Gwelsom fod y practis yn darparu gofal a thriniaeth mewn ffordd a oedd yn canolbwyntio'n amlwg ar y claf

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 26 o holiaduron, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio'r practis ers mwy na dwy flynedd. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

> *"Mae'n bractis rhagorol a dyna pam rwy'n teithio er mwyn gallu aros gyda'r practis hwn"*
>
> *"Gwasanaeth rhagorol, symudais yma o bractis lleol arall ac rwy'n hapusach o lawer gyda'r gwasanaeth a'r driniaeth a gaf"*
>
> *"Dydw i erioed wedi teimlo'r fath groeso a gofal gan ddeintydd. Mae pob aelod o'r staff wedi gwneud ymdrech fawr gyda fy nheulu cyfan. Diolch yn fawr iawn"*
>
> *"Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar a gwybodus ac yn barod iawn i helpu"*

### Cadw'n iach

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd y practis yn arddangos amrywiaeth o daflenni gwybodaeth am hybu iechyd  yn yr ardal aros i gleifion eu darllen a'u cadw, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am iechyd a hylendid y geg.

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Fodd bynnag, rhoddodd un person y sylw canlynol am hyn:

*"Maent wedi dangos i fy mab sut i lanhau ei ddannedd wrth iddo fynd drwy gamau colli dannedd. Rwy'n gobeithio dod yn ôl am flynyddoedd lawer gan fy mod yn ymddiried yn y gwasanaeth a gaf"*

## Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion mewn ffordd barchus a phroffesiynol. Roedd y staff yn ymddangos yn dîm bach cyfeillgar a gwelsom ryngweithio moesgar a chwrtais â'r cleifion. Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Rhoddodd un claf sylw cadarnhaol iawn am y ffordd roedd y tîm deintyddol wedi trin ei fab mewn ffordd urddasol a phersonol:

*"Mae gan fy mab awtistiaeth ac mae'r staff wedi ei drin mewn ffordd wych. Mae angen eu canmol am hyn gan nad yw pobman mor amyneddgar a chydymdeimladol. Mae'n ei gwneud yn haws i mi fynd ag ef i weld deintydd"*

Cadarnhaodd staff y practis fod y cleifion yn gallu siarad â'r tîm deintyddol yn breifat ac i ffwrdd o olwg cleifion eraill, er mwyn helpu i gynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Gwelsom fod y practis yn arddangos poster [1]Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol[2], sy'n disgrifio'r naw egwyddor y dylai cleifion ddisgwyl eu cael gan eu tîm gofal deintyddol pan fyddant yn cael gofal a thriniaeth.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat ac ar ran y GIG. Roedd gwybodaeth am gostau ar gyfer triniaethau'r GIG wedi'i harddangos yn glir yn yr ardal aros, gan sicrhau bod gan y cleifion wybodaeth

---

[1] Y corff rheoliadol ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol

[2] https://standards.gdc-uk.org/

am gost bosibl eu triniaeth gan y GIG. Gwelsom hefyd fod y prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat yn cael eu harddangos.

Lle y bo'n briodol, dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn cael gwybodaeth glir am yr opsiynau trin a oedd ar gael, a'u bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost eu triniaeth cyn iddynt gael y driniaeth. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â staff yn eu dewis iaith. Drwy drafodaethau â staff gwelsom fod rhai polisïau ar gael yn Gymraeg, h.y. polisi cwynion. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cael ei arddangos. Cytunodd y practis i arddangos unrhyw bolisïau a gwybodaeth berthnasol i gleifion a oedd ar gael yn Gymraeg, yn unol â'r 'Cynnig Rhagweithiol'[3]

## Gofal amserol

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Rhoddodd un claf sylw cadarnhaol am y gwasanaeth atgoffa drwy negeseuon testun:

> *"Mae'r gwasanaeth testun yn ddefnyddiol iawn ac rwyf bob amser wedi llwyddo i gael apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus i mi"*

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos yn yr ardal aros, mewn taflen wybodaeth i gleifion, ar y wefan a hefyd ar neges y

---

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/415/A%20active%20offer%20information%20pack%20-%20Health%20-%20FINAL1.pdf

peiriant ateb. Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt. Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod cofnodion o'r broses o gynllunio triniaeth a'r opsiynau yn cael eu nodi ar gyfer pob claf. O ganlyniad, roedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth arfaethedig.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth, ond gwelsom nad yw cofnodion y cleifion yn cofnodi hyn yn gyson. Gwneir argymhelliad ynglŷn â hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

### Hawliau pobl

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. O ganlyniad, roedd y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y practis wedi ei leoli mewn tŷ a oedd wedi cael ei addasu ac roedd y ddwy ddeintyddfa, y dderbynfa a'r ardal aros i gyd ar y llawr gwaelod. Roedd cleifion ag anawsterau symudedd neu gleifion mewn cadeiriau olwyn yn gallu defnyddio'r gwasanaeth yn hawdd. Roedd gan y practis doiled a oedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn hefyd.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i godi pryder (cwyn) wedi'i harddangos er mwyn i'r cleifion ei gweld. Gwnaethom argymell y dylai'r polisi gael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu amserlenni ar gyfer ymateb i unrhyw un a oedd yn cwyno.

Gwnaethom hefyd argymell y dylai gwybodaeth gael ei harddangos am broses y GIG, Gweithio i Wella[4], fel bod cleifion yn gallu cael gafael arni yn hawdd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Er nad oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion, gwelsom fod proses briodol ar waith i gofnodi a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon llafar ac ysgrifenedig, pe baent yn codi.

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith ar gyfer cael adborth gan gleifion am y gwasanaethau a'r gofal a gafwyd drwy holiaduron i gleifion a blwch awgrymiadau yn yr ardal aros. Gwelsom fod y practis yn ystyried y wybodaeth a ddaeth i law ac yn rhoi adborth i'r cleifion am ganlyniad yr holiaduron, a oedd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddaru'r weithdrefn gwyno er mwyn hysbysu cleifion am yr amserlenni sydd ar waith ar gyfer delio â chwynion.

Dylai'r practis ddarparu gwybodaeth i gleifion am broses y GIG, Gweithio i Wella.

[4] http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Nodwyd gennym fod y practis yn anelu at ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dangoswyd proses drylwyr ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau i'r ystafell ddihalogi i fodloni canllawiau cenedlaethol.

Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X a dihalogi yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd angen system gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl offer yn cael ei wasanaethu'n briodol.

Roedd angen cyflwyno rhaglen fwy strwythuredig o archwiliadau.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yng nghofnodion y cleifion yn cael eu cofnodi'n gyson.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Gwelsom fod yr ardaloedd o'r practis yr oedd y cleifion yn mynd iddynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, gan gynnwys yr ardal aros a'r deintyddfeydd. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd lleithder wedi effeithio ar ardaloedd o'r adeilad yr oedd y staff yn unig yn mynd iddynt, gan gynnwys yr ystafell ddihalogi ac un swyddfa. Trafodwyd hyn â pherchennog y practis a ddywedodd wrthym fod asesiadau'n cael eu cynnal gan landlord yr adeilad i ddatrys y broblem. Roedd hyn yn amharu ar y gwaith gwella yn yr ystafell ddihalogi a'r swyddfa. Gwneir argymhelliad ynglŷn â hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n briodol. Gwelsom hefyd fod y practis wedi cynnal asesiad risgiau tân yn y 12 mis diwethaf. Er i ni gael ein hysbysu bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ynghyd â hyfforddiant yn ystod cyfarfodydd tîm, ni ddogfennwyd hyn. Gwnaethom gynghori perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd profion dyfeisiau cludadwy (PAT) o offer trydanol yn y practis wedi cael eu cynnal yn y 12 mis diwethaf er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Fodd bynnag, cyn ei gasglu gwelsom fod y gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn cwpwrdd gyda'r boeler. Gwnaethom gynghori perchennog y practis i storio'r gwastraff clinigol mewn amgylchedd mwy diogel, ac argymell y dylid rhoi ystyriaeth i greu ardal storio dan glo y tu allan i'r practis. Roedd perchennog y practis yn barod i ystyried yr awgrym hwn. Roedd offer gwahanu amalgam wedi'i osod er mwyn sicrhau y gellid tynnu gronynnau amalgam (math o lenwad deintyddol yn cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn eu gwaredu'n ddiogel.  Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn cael ei gasglu drwy drefniadau â'r cyngor lleol.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i reoli iechyd a diogelwch yn y practis, gan gynnwys trefniadau wrth gefn mewn argyfwng. Er bod y practis wedi cynnal asesiad risg amgylcheddol cyffredinol, roedd yn rhy fyr yn ein barn ni. Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu hyn. Gwelsom fod data a gwybodaeth briodol am Reoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) ar gael i'r staff. Roedd deunyddiau glanhau yn cael eu cadw mewn cwpwrdd nad oedd ar glo, ac felly roedd yn bosibl i gleifion ei agor. Cytunodd perchennog y practis i fynd i fynd i'r afael â hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod gwastraff clinigol sy'n aros i gael ei gasglu yn cael ei storio mewn ffordd ddiogel.

Rhaid i berchennog y practis adolygu'r asesiad risg amgylcheddol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r risgiau cyfredol yn y practis a, lle y bo'n briodol, sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw risgiau y tynnwyd sylw atynt.

Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod deunyddiau glanhau yn cael eu

cadw'n ddiogel er mwyn atal mynediad a defnydd anawdurdodedig.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddihalogi benodol, fodd bynnag, nid oedd yn bodloni'r holl egwyddorion a nodir ym mholisi a dogfen gyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)[5]. Roedd carped ar y lloriau, a oedd yn golygu nad oedd modd eu glanhau'n iawn. Er i ni weld offer glân ac wedi'i sterileiddio yn cael ei storio mewn cynwysyddion priodol, roedd y cynwysyddion yn cael eu cadw ar ben bwrdd pren, nad oedd modd ei lanhau'n llwyr. Trafodwyd hyn â pherchennog y practis a ddywedodd wrthym fod bwriad i ail-gynllunio'r ystafell ddihalogi ar ôl cael gwared ar y lleithder ar y waliau. Cyfrifoldeb landlord yr eiddo oedd hyn.

Roedd dau awtoclaf ar gael i'r practis eu defnyddio a gwelsom dystysgrif arolygu yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a chofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05, o'r profion ar offer glanhau a sterileiddio, er mwyn dangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwnaeth y staff arddangos eu proses ddihalogi, a oedd o safon dda. Dywedwyd wrth staff y practis fod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn monitro tymheredd y dŵr a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau offer â llaw, fel yr argymhellir gan WHTM-01-05. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau a dihalogi.

Gwelsom fod archwiliad o'r trefniadau rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn ddiweddar a bod meysydd i'w gwella wedi eu nodi a chamau gweithredu wedi eu cymryd lle y bo'n briodol.

---

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Yn y ddwy ddeintyddfa gwelsom fod bylchau bach rhwng y cysylltiadau yn y wynebau gweithio, a all olygu nad oes modd eu glanhau'n llwyr. Mewn un ddeintyddfa gwelsom hefyd fod y gorchudd ar sil y ffenestr wedi dod yn rhydd. Roedd angen selio'r lloriau yn y ddwy ddeintyddfa yn erbyn y waliau, er mwyn helpu i atal baw a llwch rhag cronni yn y bylchau. Cytunodd perchennog y practis i fynd i'r afael â'r materion hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i berchennog y practis lunio cynllun i adnewyddu'r ystafell ddihalogi er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion WHTM-01-05.

Rhaid cael bwrdd newydd y gellir ei lanhau'n dda yn lle'r bwrdd pren a ddefnyddir i storio offer glân.

Rhaid i berchennog y practis selio'r bylchau rhwng y wynebau gweithio yn y deintyddfeydd a sicrhau bod y bylchau rhwng y lloriau a'r waliau yn cael eu selio.

Rhaid i berchennog y practis osod gorchudd newydd ar sil y ffenestr mewn un ddeintyddfa neu ei drwsio.

Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod tymheredd y dŵr yn cael ei fonitro yn unol â chanllawiau priodol wrth lanhau offer â llaw.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng (claf yn llewygu) a'u bod yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd y cyffuriau a'r offer yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol. Gwnaethom argymell y dylai gael ei ddiweddaru i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol yn ystod argyfwng a'r broses o gysylltu â'r gwasanaethau brys.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchennog y practis ddiweddaru'r polisi argyfyngau meddygol er mwyn sicrhau ei fod yn nodi'r broses a'r rolau a'r cyfrifoldebau unigol yn ystod argyfwng.

## Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisïau priodol ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Atgoffwyd perchennog y practis i ddiweddaru'r gweithdrefnau i gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu yn y cyngor lleol.

Gwelsom dystysgrifau yn cadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac oedolion. Fodd bynnag, nid oedd rhai tystysgrifau yn gyfredol. Cadarnhaodd perchennog y practis fod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer Awst 2018. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn pe bai pryder ynghylch diogelu yn codi.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogi staff, er mwyn helpu i ddiogelu staff a chleifion a sicrhau na chaiff personél amhriodol eu cyflogi.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddaru'r polisïau diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer tîm diogelu'r cyngor lleol.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Daethom i'r casgliad bod trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Daethom i'r casgliad hwn gan fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob aelod o staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC).

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r

archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth o wasanaethu'r cywasgydd [6] ar ddiwrnod yr arolygiad. Trafodwyd hyn â pherchennog y practis a gadarnhaodd eu bod yn aros i beiriannydd ddarparu pecyn gwasanaethu. Cawsom gadarnhad fod y cywasgydd wedi cael ei wasanaethu bedwar diwrnod ar ôl yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i wasanaethu'r cywasgydd er mwyn sicrhau y caiff ei wasanaethu yn unol â chanllawiau priodol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cynhaliodd y practis nifer gyfyngedig o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Gwnaethom argymell y dylai perchennog y practis ystyried rhoi rhaglen fwy eang a mwy strwythuredig o archwiliadau ar waith er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchennog y practis ystyried rhoi rhaglen eang a strwythuredig o archwiliadau ar waith, gan gynnwys cynlluniau gwella lle bo'n briodol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[6] Cywasgydd aer deintyddol yw un sy'n darparu aer cywasgedig i ddeintyddiaeth. Defnyddir aer cywasgedig i bweru mathau o offer deintyddol ac i symud y gadair o amgylch weithiau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y ddau bractis lle y rhannwyd gwybodaeth. Dywedwyd wrthym eu bod, fel grŵp o ddeintyddion, yn cynnal adolygiadau a thrafodaethau rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod y staff clinigol yn ymwybodol o'r arfer gorau diweddaraf.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i sicrhau diogelwch cofnodion cleifion er mwyn helpu i atal mynediad anawdurdodedig.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ar y cyfan ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi'u cynllunio er mwyn hyrwyddo lles a diogelwch cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom fod rhai enghreifftiau lle roedd y cofnodion yn anghyson ac angen eu gwella:

- Nid oedd caniatâd llafar y claf bob amser yn cael ei ddogfennu mewn cofnodion
- Roedd angen cofnodi hanes meddygol cleifion yn gyson ac roedd angen i'r clinigwyr eu gwirio yn unol â chanllawiau cenedlaethol
- Nid oedd hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson h.y. defnydd o alcohol a thybaco. Lle y nododd cofnodion y cleifion eu bod yn smygwyr, prin oedd y cofnodion lle y nodwyd pryd y cynigiwyd cyngor ar roi'r gorau i smygu.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol y cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cadw yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan Teeth for Life systemau a phrosesau ar waith sy'n sicrhau y caiff y practis a'r staff eu cefnogi i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau a'u bod wedi cael y cyfle i fynychu hyfforddiant priodol i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Argymhellwyd gweithredu cofnod cyffredinol o hyfforddiant staff.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Teeth for Llife a chaiff ei gefnogi gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Ar adeg yr arolygiad roedd y prif ddeintydd hefyd wedi gwneud cais i fod yn rheolwr cofrestredig y practis, ac roedd y broses honno bron â chael ei chwblhau. Yn fuan wedi'r arolygiad, cadarnhawyd mai perchennog y practis oedd y rheolwr cofrestredig. Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion, yn unol â'r rheoliadau. Ystyriwyd bod y rhain yn rhan o'r broses gofrestru a gwnaed mân argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Gwelsom fod tîm y practis yn drefnus ac yn rhagweithiol iawn wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion. Disgrifiodd pob aelod o dîm y practis linellau atebolrwydd ac adrodd clir. Lle y nodwyd meysydd i'w gwella gennym, gweithredodd perchennog y practis yn brydlon a dangos parodrwydd ac ymrwymiad i ymdrin ag unrhyw faterion ac awgrymiadau. Gwnaethom atgoffa perchennog y practis o'r angen i sicrhau, os oedd argymhellion wedi eu gwneud

yn y practis hwn, eu bod hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer y chwaer-bractis deintyddol.

Dywedodd y staff wrthym ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau gan bob aelod o dîm y practis. Nodwyd gennym fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu yn y practis yn dda. Gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, a bod cofnodion o'r cyfarfodydd yn cael eu llunio a'u rhannu gyda'r rheini nad oedd modd iddynt fynychu'r cyfarfod.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y mwyafrif o'r polisïau yn cael eu hadolygu a'u dyddio. Gwnaethom atgoffa perchennog y practis i ddyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau pan gânt eu hadolygu nesaf er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod eu bod yn edrych ar y canllawiau diweddaraf.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rôl. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cefnogaeth ac anogaeth gan berchennog y practis i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwnaethom argymell bod perchennog y practis yn gweithredu matrics hyfforddiant er mwyn sicrhau bod cofnod cyffredinol o hyfforddiant staff ar gael i'w weld yn hawdd. Byddai hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant hanfodol yn cael ei chynnal mewn modd amserol.

Gwelsom fod perchennog y practis yn arfarnu pob aelod o staff, ac roedd y broses hon yn mynd rhagddo.

Roedd y deintyddion a'r staff nyrsio wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer ac roedd yswiriant indemnedd ar waith ar eu cyfer.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi cael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a nhw eu hunain rhag yr haint. Gwnaethom argymell bod perchennog y practis yn gofyn i'r adran iechyd galwedigaethol am gyngor mewn perthynas â rhai aelodau o staff lle nad oedd lefelau canlyniad trawsnewid Hepatitis B ar gael. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Disgrifiodd perchennog y practis broses recriwtio briodol ar gyfer staff newydd, a oedd yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi staff er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond staff priodol oedd yn cael eu recriwtio. Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn cwmpasu'r broses o recriwtio, sefydlu a chyflogi staff yn barhaus i'w cefnogi yn eu rolau.

Fel un o ddwy ddeintyddfa gwelsom fod perchennog y practis yn gallu sicrhau bod lefel a nifer briodol o staff ar gael. Dywedwyd wrthym gan y staff a pherchennog y practis eu bod yn gallu gweithio yn y naill bractis neu'r llall pan oedd angen, gan helpu i sicrhau parhad gofal i gleifion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchennog y practis weithredu a chynnal cofnod o holl hyfforddiant y staff.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Yn ystod yr arolygiad gwelsom fod bag gwastraff clinigol wedi ei adael ar lawr yr ystafell ddihalogi. | Nid oedd y bag gwastraff clinigol wedi cael ei storio mewn cynhwysydd, fel bin pedal a agorir gan droed. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff fod yn wynebu risg wrth symud y bin. Roedd yn bosibl hefyd i hylifau/deunydd gwastraff ddod allan o'r bag a mynd ar lawr yr ystafell ddihalogi, nad oedd yn hawdd iawn ei lanhau gan fod carped arno. | Codwyd hyn yn uniongyrchol gyda pherchennog y practis yn ystod diwrnod yr arolygiad. | Prynodd perchennog y practis fin pedal a agorir gan droed i storio'r bag gwastraff clinigol a'i gynnwys. |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Teeth for Life

## Dyddiad arolygu:9 Gorffennaf 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chyhoeddwyd unrhyw hysbysiadau diffyg cydymffurfio uniongyrchol. | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

## Teitl swydd:

## Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Teeth for Life

## Dyddiad arolygu:9 Gorffennaf 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis ddiweddaru'r weithdrefn gwyno er mwyn hysbysu cleifion am yr amserlenni sydd ar waith ar gyfer delio â chwynion.<br>Dylai'r practis ddarparu gwybodaeth i gleifion am broses y GIG, Gweithio i Wella. | Safon 6.3 Gwrando a Dysgu o'r adborth<br>Rheoliad 21 (1) | Diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys amserlenni.<br>Poster y GIG - Gweithio i Wella - yn cael ei arddangos. | Adam Lody | Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2018 |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod gwastraff clinigol sy'n aros i gael ei gasglu yn cael ei storio mewn ffordd ddiogel.<br>Rhaid i berchennog y practis adolygu'r asesiad risg amgylcheddol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r risgiau cyfredol yn y practis a, lle y bo'n briodol, sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw risgiau y tynnwyd sylw atynt.<br>Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod deunyddiau glanhau yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn atal mynediad a defnydd anawdurdodedig. | Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch<br>Rheoliad 8 (1)(m)<br>Rheoliad 22 (2)(a)<br>Rheoliad 8 (1)(c,d,e) | Bin storio gwastraff allanol y gellir ei gloi i'w brynu ar ôl i'r gwaith o godi ffensys ochr gael ei gwblhau<br>Asesiad Risg Amgylcheddol wedi ei adolygu<br>Cwpwrdd deunyddiau glanhau wedi ei osod gyda chlo a agorir ag allwedd | Adam Lody | Diwedd Medi 2018<br>Cwblhawyd 16/7/18<br>Cwblhawyd 16/7/18 |
| Rhaid i berchennog y practis lunio cynllun i adnewyddu'r ystafell ddihalogi er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion WHTM-01-05.<br>Rhaid cael bwrdd newydd y gellir ei lanhau'n dda yn lle'r bwrdd pren a ddefnyddir i storio offer glân.<br>Rhaid i berchennog y practis selio'r bylchau rhwng y wynebau gweithio yn y deintyddfeydd a sicrhau bod y bylchau rhwng y lloriau a'r waliau yn cael eu selio. | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi<br>Rheoliad 22 (2)(a,b)<br>Rheoliad 13 (3)(b) a 6(b)(i) | Ystafell ddihalogi i'w hadnewyddu yn dilyn gwaith i gael gwared ar leithder/dŵr yn dod i mewn.<br>Prynu bwrdd newydd yn lle'r bwrdd pren<br>Cwmni cabinetau i wneud gwaith ar wynebau gweithio/lloriau/sil | Adam Lody | Yn union ar ôl cael gwared ar y lleithder, tua Hydref/Tachwedd 2018<br>Diwedd Medi ar gyfer wynebau |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i berchennog y practis osod gorchudd newydd ar sil y ffenestr mewn un ddeintyddfa neu ei drwsio.<br>Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod tymheredd y dŵr yn cael ei fonitro yn unol â chanllawiau priodol wrth lanhau offer â llaw. | | Adolygu gweithdrefnau glanhau â llaw | | gweithio/sil<br>Gweithdrefn glanhau â llaw wedi ei hadolygu Gorffennaf 2018 |
| Dylai perchennog y practis ddiweddaru'r polisi argyfyngau meddygol er mwyn sicrhau ei fod yn nodi'r broses a'r rolau a'r cyfrifoldebau unigol yn ystod argyfwng. | Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau<br>Rheoliad 8 (1)(q) | Y polisi argyfyngau meddygol diweddaraf | Adam Lody | Cwblhawyd Awst 2018 |
| Rhaid i'r practis ddiweddaru'r polisïau diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer tîm diogelu'r cyngor lleol. | Safon 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg<br>Rheoliad 14 (1)(c) | Ychwanegu manylion y tîm diogelu lleol | Adam Lody | Cwblhawyd Awst 2018 |
| Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i wasanaethu'r cywasgydd er mwyn sicrhau y caiff ei wasanaethu yn unol â chanllawiau priodol. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol<br>Rheoliad 13 (2)(a) | Dod i gytundeb â Chwmni Peirianneg Ddeintyddol i wasanaethu'n rheolaidd a mewnbynnu'r dyddiad ym meddalwedd rheoli practis fel nodyn atgoffa | Adam Lody | Cwblhawyd 10/7/18 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai perchennog y practis ystyried rhoi rhaglen eang a strwythuredig o archwiliadau ar waith, gan gynnwys cynlluniau gwella lle bo'n briodol. | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol<br>Rheoliad 16 (1)(a) | System ar-lein rheoli practis ar y cyd â phroses archwilio strwythuredig ar waith ynghyd â nodiadau atgoffa | Adam Lody | Cwblhawyd 1 Awst 2018 |
| Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol y cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cadw yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | 3.5 Cadw cofnodion<br>Rheoliad 20 (1) (a)(i)(ii) | Trefnu cyfarfodydd gyda deintyddion i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion a'u harchwilio'n rheolaidd gan ddefnyddio system rheoli practis | Adam Lody | Cwblhawyd 1 Awst 2018 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai perchennog y practis weithredu a chynnal cofnod o holl hyfforddiant y staff. | 7.1 Gweithlu<br>Rheoliad 8(1)(h) | Cynnal taflenni cofnodion hyfforddiant staff a'u hadolygu yn ystod arfarniadau | Adam Lody | Wedi dechrau 1 Awst 2018 ac yn mynd rhagddo |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Adam Lody**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 28 Awst 2018**